Ysgol Gynradd Dolwyddelan
Dolwyddelan
Conwy
LL25 0SZ

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

09/10/2024

Annwyl Nia Jones-Artell

**Ymweliad Interim:** Medi 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag ysgolion Ffederasiwn Capel Coed-Elan yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgolion wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Medi 2019. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- Ymweld â dosbarthiadau.
- Siarad â disgyblion.
- Cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr.
- Craffu ar waith disgyblion.
- Craffu ar ddogfennaeth.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n briodol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau y gallent wella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ffederasiwn**

- Ers yr arolygiad craidd, mae strwythur arweinyddiaeth hylaw wedi'i sefydlu ar draws ysgolion y ffederasiwn. Mae aelodau'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n bwrpasol ac yn cefnogi'r pennaeth strategol yn fwriadus wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.
- Mae gan athrawon gyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad ar y cyd â chydweithwyr yn ysgolion eraill y ffederasiwn. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu eu hyder wrth ysgwyddo rolau arwain ac yn hybu trafodaethau proffesiynol er mwyn gwella arfer.
- Mae'r pennaeth strategol wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso pwrpasol ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu o fewn ysgolion

y ffederasiwn. Mae'r pennaeth strategol yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses sy'n eu cefnogi i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Gweithredir amserlen hunanwerthuso ddefnyddiol sy'n adnabod cyfleoedd i ddadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion, casglu barn rhanddeiliaid a chraffu ar waith. Er hyn, prin yw'r adegau ble mae arweinwyr yn ymweld â sesiynau dysgu.
- Nid yw'r arweinwyr bob tro'n ailymweld ag argymhellion sy'n deillio o deithiau dysgu achlysurol a gweithgareddau craffu ar lyfrau disgyblion. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr adnabyddiaeth ddigon cadarn o welliannau yn ansawdd yr addysgu a safonau disgyblion dros amser.
- Mae gan yr ysgol berthynas weithredol ag ysgolion lleol gan gynnwys yr ysgol uwchradd gyfagos, gan gynnal adolygiadau o ddarpariaeth benodol ar y cyd. Trwy ymweliadau a theithiau dysgu achlysurol, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r agweddau hynny sydd angen eu gwella.
- Mae arweinwyr yn cydweithio'n bwrpasol i lunio cynllun gwella cynhwysfawr sydd yn adnabod blaenoriaethau addas ar gyfer y ffederasiwn ac ysgolion unigol. Maent yn gosod cerrig milltir rheolaidd a llinellau atebolrwydd pwrpasol i werthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn dymhorol er mwyn gwirio bod yr ysgol yn gwireddu'r bwriadau yn amserol ac yn fwriadus.

**Sicrhau bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wella eu gwaith**

- Mae staff ar draws yr ysgol yn cynnig anogaeth a chlod cyson i ddisgyblion ar lafar gan adnabod ymdrechion da. Mae hyn yn cyfrannu at agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu dysgu.
- Mae staff yn cynnig adborth defnyddiol i ddisgyblion yn ystod sesiynau, er enghraifft wrth gywiro gwaith mathemateg yn y fan a'r lle.
- Mae arweinwyr wedi cyflwyno dulliau penodol ar gyfer ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion. Mae'r dulliau yn addas, ac yn gyffredin ar draws yr ysgol, ac ar draws holl ysgolion y ffederasiwn.
- Mae'r ysgol wedi mabwysiadu cod marcio cytûn sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol gan athrawon. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o sut i ymateb i adborth athrawon.
- Gwneir defnydd effeithiol o feini prawf llwyddiant penodol er mwyn annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith ysgrifennu.
- Mae athrawon yn darparu llawer o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gywiro gwallau ac ymarfer eu sillafu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol yn gynyddol gywir.
- Dylai'r ysgol ystyried gynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion fireinio cynnwys eu gwaith, er enghraifft er mwyn cyfoethogi eu gwaith ysgrifennu ymhellach.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6622043

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol